

# Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd Cynllun 'Cymorth Cartref'

## DEFNYDDIO GEIRIAU A SIARAD

Helpu eich plentyn i siarad a dweud mwy



Pan fydd plant yn dysgu i siarad, byddan nhw'n cychwyn trwy ddefnyddio geiriau unigol ac yn raddol yn rhoi mwy o eiriau at ei gilydd i wneud brawddegau.

Ar gyfer plant ifanc, y ffordd orau o ddsygu geiriau newydd a sut i roi geiriau at ei gilydd ydi trwy chwarae.

Mae'n bwysig bod plant yn deall beth mae geiriau yn eu golygu cyn y gallwn ddisgwyl iddyn nhw eu defnyddio. Gwnewch yn siŵr bod geiriau byddwch chi'n annog eich plentyn i'w dweud yn rhai mae ef/hi wedi'u clywed llawer o weithiau yn y gorffennol a pheidiwch â phoeni am sut mae eich plentyn yn dweud y geiriau – mae'n arferol i blant ifanc wneud camgymeriadau wrth ynganu.

# Sion sicr cyn i chi gychwyn

- Ceisiwch osgoi gofyn i'ch plentyn 'dweud hwn' a 'dweud hynny' oherwydd gall hyn annog plant i beidio â bod eisiau siarad.
- Derbyniwch y seiniau bydd eich plentyn yn eu gwneud fel y geiriau mae ef/hi'n eu golygu a dywedwch y gair yn ôl iddo/iddi yn gywir (e.e. Plentyn: "ta-ter", oedolyn: "ie, tractor").
- Defnyddiwch weithredoedd ac ystumiau i gefnogi'r hyn rydych yn ei ddweud, weithiau gall dysgu gweithred ar gyfer gair helpu plentyn i ddysgu'r gair ei hun.
- Arhoswch a gwrandewch am eich plentyn yn cychwyn siarad, weithiau byddwn ni'n siarad gormod oherwydd ein bod eisiau llenwi'r distawrwydd. Modelwch eiriau drosodd a throsodd a rhowch gyfle i'ch plentyn geisio eu dweud drosto/drosti ei hun.

## Ffyrdd o annog eich plentyn

**Modelu iaifh:** Gwnewch sylwadauac ailadroddwch eiriau ac ymadroddion syml wrth chwarae hoff gemau neu yn ystod gweithgareddau bob dydd (e.e. hongian y dillad a olchwyd allan).



Bydd hyn yn dangos i'ch plentyn y mathau o bethau gallai ef/hi eu dweud.

**Adeiladu ac Ehangu :** Os bydd eich plentyn yn dweud gair, dywedwch ef yn ôl iddo/iddi ond ychwanegwch air arall i ddangos iddo/iddi sut i ddweud mwy E.e.

Plentyn: 'dadi',  
Oedolyn: 'dadi mynd', neu E.e.

Plentyn: 'ci bwyta',  
Oedolyn: 'ie, ci bwyta cinio'.

**Rhoi Ciw iddo/iddi :** Dangoswch rhai ymadroddion i'ch plentyn trwy ddweud un neu ddau yn gyntaf, yna rhowch giw iddo/iddi fel ei fod/bod yn rhoi cynnig ar ymadrodd, (e.e. mewn llyfr – "dyma'r tedi'n neidio ar y gwely, dyma'r tedi'n yfed te a dyma ...").

## Mathau o eiriau i feddlw amdany'n nhw

**Geiriau enwi (enwau)** - e.e. banana  
llefrith llygaid trwyn bws awyren ceffyl  
llew côt.

**Geiriau gwneud (berfau)** - e.e. rhedeg  
neidio eistedd cysgu ymolchi crïo palu  
nofio brwsio.

**Geiriau disgrifio (ansoddeiriau)** - e.e.  
mawr bach poeth oer gwlyb hir budr coch glas.

**Geiriau safle (arddodiaid)** - e.e. mewn ar dan ar y tu blaen tu  
ôl i nesaf at rhwng.

**Coſiſwch** - Beidio â phoeni am gael  
brawddegau cywir, mae 'tedi cysgu'  
yn iawn (yn hytrach na 'mae'r tedi yn  
cysgu'). Y geiriau sy'n rhoi gwybodaeth  
sy'n bwysig.



# os ydych yn poeni am leferydd eich plenfyn neu am gael mwy o wybodaeth, ffoniwch eich Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-Bont ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Wrecsam a Sir y Fflint Conwy a Sir Ddinbych Gogledd-orllewin Cymru	O1978 727071 O1745 443178 O1286 662760 Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn ogystal â rhannau o'r canolbarth, Swydd Gaer a Sir Amwythig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Preswylwyr Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	Cwm Cynon, Merthyr Tudful, Cymoedd y Rhondda ac ardal Taf Elái
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys	Aberhonddu, Y Drenewydd, Sir Fynwy a Threfyclo, Sir Frycheiniog a gweddill Maesyfed

Afasic Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (SLCN), a rhoddir pwyslais arbennig ar bobl ifanc â Nam Penodol ar iaith (SLI) [www.afasiccymru.org.uk](http://www.afasiccymru.org.uk).

Mae Afasic Cymru'n cydnabod Amy Hewer, Therapydd iaith a Lleferydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dechrau'n Deg Wrecsam am weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r wybodaeth hon.

Ariennir cynhyrchiad y daflen hon gan  
Sefydliad Waterloo a Llywodraeth Cymru

 thewaterloofoundation



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government